**CEISIO'R ARGLWYDD.**

**Emyn**: 682 '*Pererin wyf mewn anial dir*.'

**Darlleniad**: Eseia 55:6-13.

'*Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael, galwch arno tra bydd yn agos*,' 6. **Sut mae ceisio'r Arglwydd?** '*Fe'm ceisiwch a'm cael; pan chwiliwch <u>â'ch holl galon</u>*,' Jeremeia 29:13. Rhaid bod yn ddidwyll, gan ddarllen y Beibl yn weddigar.

### A. PWY SYDD I GEISIO'R ARGLWYDD?

'*Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r un ofer ei fwriadau, a dychwelyd at yr Arglwydd*,' 7. Y drygionus a'r anghyfiawn:
i) **Y Drygionus**: Dyma gyflwr pawb yn eu natur wreiddiol, oherwydd i bawb fethu nod Duw – '*Pawb a bechasant*!"
ii) **Yr un ofer** neu'r anghyfiawn: Dyma berson nad sydd yn cydymffurfio â chyfraith Duw. Yn yr Hen Destament, roedd yn cyfeirio at y Deg Gorchymyn. Yn y Testament Newydd gellir ei chrynhoi i ddau ofyn – caru Duw a charu cymydog. Mae pawb yn methu cadw'r gofynion; ond Iesu sydd wedi cadw'r cyfan. Mae pawb i geisio Arglwydd.

### B. BETH SYDD RHAID I BERSON WNEUD?

'*<u>Gadawed</u> y drygionus ei ffordd, … a <u>dychwelyd</u> at yr Arglwydd*.' Rhaid i berson adael ei hen ffordd o fyw a throi at yr Arglwydd – dyma **edifeirwch**. Mae'n galw am newid yn y galon (geiriau ac ymddygiad person), gweithredoedd (yr hyn a wna person) ac ym meddwl person. O ran meddwl, rhaid rhoi Duw yn gyntaf ac nid yr hunan; yn ei ddeall o'r Iesu rhaid Ei gydnabod yn Fab Duw ac yn Waredwr. <u>Mae'n galw am droi o'r hunan a throi at Iesu</u>. Mae'n fwy na 'throi drosodd 'dalen newydd' ( gweithred ddynol) ac yn galw am newid y galon (gwaith gras Duw).

### C. PRYD MAE CEISIO'R ARGLWYDD?

'*Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael, galwch arno tra bydd yn agos*,' 6. Mae 'na phrysurdeb i alwad Duw. Nid yw Ei wahoddiad yn para am byth. **Nawr** yw'r amser i'w geisio, tra'r ydym yn fyw – bydd yn rhy hwyr wedi i ni farw! Nawr yw'r amser i alw ar ei enw, tra y mae'n parhau yn ddyddiau o ras! '***Heddiw** cewch wybod ei rym, os gwrandewch ar ei lais. Peidiwch â chaledu'ch calonnau,*' Salm 95. '*Dyma **yn awr**, ddydd iachawdwriaeth*,' 2 Cor.6.

### CH. PAM MAE'N BWYSIG YMATEB YN AWR?

a) Ni ŵyr neb beth ddaw yfory – ystyriwn gyda'r pandemig yma pa mor fregus yw bywyd! Ni wyddom chwaith pryd bydd Iesu Grist yn dychwelyd eilwaith – bydd yn rhy hwyr i ymateb wedi iddo ddychwelyd. b) Mae

Duw yn gwybod ein calonnau – Gallwn dwyllo'r hunan ein bod yn iawn gyda Duw, ond Ef yn unig a ŵyr pwy yw Ei blant. c) Mae Duw yn Ei drugaredd yn rhoi tymhorau o ras – heddiw yw dydd iachawdwriaeth! Mae'r Arglwydd yn agos pan mae'r Efengyl yn cael ei gyhoeddi. Mae 'na gyfle gan bobl i ddod i'w adnabod trwy ymateb i'r Efengyl a'i dderbyn mewn ffydd, (*Rhufeiniaid 10:8-17*). **A wnawn ni Ei geisio**?

**D. DUW TRUGAROG.**

Roedd Eseia yn ysgrifennu mewn cyfnod pan oedd llawer o bobl o'i genedl Israel wedi cefnu ar Dduw ac ymarfer eilunaddoliaeth. **Pam felly fuasai Duw yn eu hadfer ar ôl iddynt gyflawni cymaint o ddrwg**?

**Pam fuasai Duw yn trugarhau at rai fel ni er i ni gyflawni drwg mewn gair, gweithred a meddwl?** "*Oherwydd nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i," medd yr Arglwydd,'* 8. Diolch mai Duw trugarog a graslon yw Duw ac nid yw'n trin pobl yn ôl eu haeddiant. Mae'n galw pobl ato'i hun ac yn eu maddau. **A wna gynllun Duw lwyddo**? Gwna! Er i lawer wrthod gwahoddiad Duw trwy'r Beibl, fe fydd ei fwriad yn llwyddo. Fel y mae glaw yn cyflawni ei fwriad i ddyfrhau'r ddaear a'i ffrwythloni, felly y gwna Air Duw gyflawni bwriad Duw sef newid calonnau pobl. '*Fel y mae'r glaw a'r eira yn disgyn o'r nefoedd, a heb ddychwelyd yno nes dyfrhau'r ddaear, … felly y mae fy ngair sy'n dod o'm genau; ni ddychwel ataf yn ofer, ond fe wna'r hyn a ddymunaf, a llwyddo â'm neges*,' 10-11.

Mae adnodau 12 a 13 yn rhagweld y bobl yn dychwelyd o Fabilon '*mewn llawenydd*.' Fe wnânt ddychwelyd i weld y ffynidwydd (pine tree) a'r myrtwydd (myrtle) yn hytrach na drain a mieri. '*Bydd hyn yn glod i'r Arglwydd, yn arwydd tragwyddol na ddilëir mohono*,' 13. Dyma ddarlun o'r byd presennol yn dod i ben, y greadigaeth yn profi rhyddid, a dechrau ar ddaear a nefoedd newydd.

Nawr yw'r amser i geisio'r Arglwydd, gan edifarhau a galw ar Ei enw. Mae'n Dduw sy'n trugarhau ac fe lwydda Ei fwriad. **A fydd y nef yn gartref i ni**?

**Gweddi**: O Dad nefol, diolch am dy anogaeth a'th her i ni trwy dy eiriau i ni yn Eseia 55. Diolch dy fod yn ein gwahodd i brofi o'th fendithion, dy drugaredd a'th faddeuant, trwy ymateb i'r Beibl yn nerth yr Ysbryd. Diolch nad wyt yn ymwneud â ni yn ôl ein haeddiant ond dy fod yn trugarhau tuag atom, gan gynnig i ni'r gobaith hyfryd o ddaear a nefoedd newydd, rhyw ddydd. Parha i'n cadw'n ddiogel ac yn iach. Yn enw Iesu, Amen.

**SEEKING THE LORD.**

**Hymn**: 948 '*Guide me, O thou great Jehovah*.'

**Reading**: Isaiah 55:6-13.

'*Seek the Lord while he may be found; call on him while he is near*,' 6. **How are we to seek the Lord**? '*You will seek me and find me when you seek me with all your heart*,' Jeremiah 29:13. We need to be sincere, 'ALL our heart.'

**A. WHO IS TO SEEK THE LORD?**

'*Let the wicked forsake his way and the evil man his thoughts*,' 7. The wicked and the evil man! i) **The wicked**: That is, every person in his/her natural state before God – '*For all have sinned and fallen short of the glory of God.*' ii) **The evil man or unrighteous**: This person does not conform to the law of God. In the Old Testament this refers to keeping the Ten Commandments. In the New Testament, it is a call to love God and to love one's neighbour. Everybody fails to keep these commands. Only Jesus keeps them all. Everyone needs to seek the Lord!

**B. WHAT DOES A PERSON HAVE TO DO?**

'*Forsake his way … turn to the Lord*,' 7. A person must leave his/her old way of living and turn to the Lord. It calls for a change of heart (how a person speaks with others), a change in deeds (a person's actions) and a change of mind. A change of mind calls for a person to place God first and not self. It calls for a person to acknowledge Jesus as Lord and Saviour. It is a call to repentance, to turn from self and to turn to Jesus. Only through God's grace can such a change be made!

**C. WHEN IS A PERSON TO SEEK THE LORD?**

'*Seek the Lord while he may be found; call on him while he is near*,' 6. There is an urgency to God's call. He does not extend His invitation forever. Now is the time to seek him, while we are alive – it will be too late when we are dead. Now is the time to call on His name, while it remains days of grace. '*Today, if you hear his voice, do not harden your hearts*,' Psalm 95. '*Now is the day of salvation,*' 2 Corinthians 6:2.

**D. WHY IS IT IMPORTANT TO SEEK THE LORD?**

a) No one knows what tomorrow will bring – the recent pandemic has shown how frail life can be! No one knows when Jesus will return – when he does, it will be too late to call upon His name. b) The Lord knows a person's heart – we may fool ourselves into believing we are right with

Him, yet only God knows who are his children. c) The Lord in his mercy offers seasons of grace – now is the day of salvation! The Lord is near when the Gospel is proclaimed (today!) and there is an opportunity for people to come to know Him through faith in Jesus Christ, (Romans 10:8-17). **Are we seeking Him and prepared to call upon His name**?

**E. A MIGHTY GOD.**

Isaiah wrote at a time when many of the people of Israel turned their backs on God and practiced idolatry. Why would God restore them to fellowship considering all the wrong they were doing?

**Why should God show compassion to us when we consider all the wrongs that we are doing, in word, deed and thought**? *"For my thoughts are not your thoughts, neither are your ways my ways," declares the Lord*,' 8. God's mercy and love far exceeds that of man, and He does not deal with us as we are deserving. In love, he calls people to himself to receive his mercy and pardon.

**Will God's plan succeed**? Yes! Though many may reject God's invitation of salvation through Jesus, his purpose will succeed. As the rain achieves its purpose of watering the earth and bringing forth fruit, so the Word of God will achieve God's purpose, which is to bring people to Him. '*As the rain and the snow come down from heaven, and do not return to it without watering the earth, … so is my word that goes out from my mouth: It will not return to me empty but will accomplish what I desire*'.

Verses 12 and 13 foresee a time when the people of Israel will return from Babylon 'in joy.' They will return to find pine trees and myrtle where there use to be thorn bushes and briers. '*This will be for the Lord's renown, for an everlasting sign which will not be destroyed*,' 13. Here is a picture of this world coming to an end and the beginning of a new heaven and earth. Now is the time to seek the Lord, to repent and call on His name. He is a God who forgives and his purpose will succeed. **Do we know Him**?

**Prayer**: Heavenly Father, thank you for the encouragement of your words to us as found in Isaiah. Thank you that you invite us to receive your blessings, your mercy and pardon, by responding to the Bible. We give thanks that you do not deal with us as we are deserving, but in your mercy you offer us the wonderful hope of a new earth and heaven, one day. Please continue to guide us and protect us, in Jesus' name. Amen.